# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 8

SWYDDOGAETHAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

*Ymyriadau gan y llywodraeth ganolog*

### 151 Hysbysiad rhybuddio

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio i awdurdod lleol os ydynt wedi eu bodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 3 yn bodoli mewn perthynas â'r awdurdod lleol.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru bennu pob un o'r canlynol yn yr hysbysiad rhybuddio—

(a) y seiliau dros ymyrryd;

(b) y rhesymau pam y maent wedi eu bodloni bod y seiliau yn bodoli;

(c) y camau gweithredu y maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol eu cymryd i ddelio â'r seiliau dros ymyrryd;

(d) y cyfnod y mae'r camau i'w cymryd ynddo gan yr awdurdod lleol ("y cyfnod cydymffurfio");

(e) y camau y maent â'u bryd ar eu cymryd os bydd yr awdurdod lleol yn methu â chymryd y camau sy'n ofynnol.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad rhybuddio o dan is-adran (1), rhaid iddynt—

(a) o fewn 21 diwrnod o roi'r hysbysiad, osod copi ohono gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a

(b) o fewn 90 diwrnod o roi'r hysbysiad, adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch y camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol mewn ymateb i'r hysbysiad rhybuddio.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2021.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 151 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 151 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 151 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 151 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.